

## EDWARDS, EDWARD ('Pencerdd Ceredigion'; 1816-1897), cerddor



**Enw:** Edward Edwards  
**Ffugenw:** Pencerdd Ceredigion  
**Dyddiad geni:** 1816  
**Dyddiad marw:** 1897  
**Plentyn:** Jack Edwards  
**Rhiant:** John Edwards  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio  
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Little Darkgate Street, Aberystwyth, mab i John Edwards. Hanoedd o deulu cerddorol, ac yn ddyd ieuanc mynychai yntau eglwys Llanbadarn, lle y ceid canu rhagorol gan y côr. Symudodd y teulu i fyw i Blaenycwm, ger Capel Dewi, dewiswyd ef yn arweinydd canu yng nghapel y Methodistiaid, a pharhaodd i fod yn arweinydd am dros 70 o flynyddoedd. Daeth i Aberystwyth i ddilyn ei alwedigaeth fel crydd, a daeth i gyffyrddiad â nifer o gerddorion da a drigai yn y dref. Bu am ychydig yn byw yn Nhrefdegar, Mynwy, ond daeth yn ôl i Aberystwyth. Ffurfiodd gôr yn y Tabernacl, Aberystwyth, ac o dan ei arweiniad perfformiwyd y 'Messiah,' 'Creation,' 'Seasons,' a'r 'Twelfth Mass,' a chodwyd safon caniadaeth yn y dref. Bu farw 16 Medi 1897, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Aberystwyth.

### JACK EDWARDS (1853 - 1942), llyfrwerthwr

Mab Edward Edward, o Great Darkgate Street, Aberystwyth. Yr oedd yn ddatganwr da, ac a fu yn llanw swydd yn yr Unol Daleithiau fel datganwr; yr oedd yn eiddgar iawn ym mhlaid 'Esperanto.'

### Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

### Ffynonellau

*Y Cerddor*, Tachwedd 1897, a 1917, 64, 72, 83, 95

### Delweddau

John Thomas, Edward Edwards (Pencerdd Ceredigion, 1816-97)

H. H. Davies & Son, Jack Edwards

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732936](#)

Wikidata: [Q52911912](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Arddull APA



Griffith, R. D., (1953). EDWARDS, EDWARD ('Pencerdd Ceredigion'; 1816-1897), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-EDW-1816>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Modeld gan:  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government